Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

## Cynllun Taliadau 2020/21

Mae'r Bwrdd wedi ystyried Cynllun Taliadau 2020/21 yng nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 5 Rhagfyr 2019 a 2 Ionawr 2020. Ystyriodd y Bwrdd ddeunyddiau ategol perthnasol, gan gynnwys adroddiad gan Jacobs a oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith o roi sicrwydd allanol, a holodd y Tîm Gweithredol yn briodol, yn benodol y Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol, gall y Bwrdd gadarnhau, hyd y gwyddwn, fod y taliadau yng Nghynllun Taliadau Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Gallwn gadarnhau i gamau priodol gael eu cymryd i sicrhau bod y wybodaeth y mae'r Cynllun Taliadau yn seiliedig arni yn gywir o fewn lefelau rhesymol o oddefiant. Mae'r Cynllun Taliadau a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac yn unol â hynny maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

O ystyried *'Rheolau cynllun taliadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) a 143B Deddf Diwydiant Dŵr 1991'* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, rydym o'r farn bod ein taliadau yn gyson â'r gofynion hyn, gan ystyried rheolau'r Cynllun Taliadau gyda'i gilydd.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am yr effeithiau a gaiff y taliadau newydd ar filiau cwsmeriaid ar gyfer amrywiaeth o wahanol fathau o gwsmeriaid. Mae'r Bwrdd wedi ymyrryd i sicrhau bod effeithiau biliau Cynllun Taliadau 2020/21 islaw 5%, ac eithrio ar gyfer nifer bach o gwsmeriaid fel y nodir yn y Datganiad o newidiadau sylweddol. Mae'r ymyriadau wedi'u nodi yn y Datganiad o newidiadau sylweddol ategol.

Mae'r cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r cynllun taliadau, fel y nodir isod.

**Alastair Lyons**
**Cadeirydd**

Ar ran y Bwrdd
13 Ionawr 2020

## Ymgysylltu â Chyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru mewn perthynas â thaliadau

| Dyddiad | Diben | Canlyniad |
|---|---|---|
| 9 Gorffennaf 19 | Hysbysu'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr am gynnwys y cyhoeddiad "Cwmpas y newidiadau". | Ni chafodd unrhyw faterion eu codi. Cyhoeddwyd dogfen "Cwmpas y newidiadau" ar y wefan ar 12 Gorffennaf 2019. |
| | Trafodaeth gyffredinol am dariffau | Cododd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr bryder am effaith bosibl y nifer cynyddol o gwsmeriaid sy'n cael budd o'r tariffau cymdeithasol ar y sail bod y groesgymorthdaliadau presennol yn cyrraedd eu terfyn. Gofynnwyd am y newyddion diweddaraf am hyn. |
| 23 Awst 19 | Rhoi gwybod i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr am y Tariffau Cyfanwerthu Dangosol drafft ar gyfer 2020/21 a gwahodd sylwadau | Dim sylwadau gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. |
| 29 Awst 19 | Dychwelyd drafft cyntaf ffurflen taliadau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. | Trafodwyd y wybodaeth ychwanegol a fyddai ar gael i lywio'r gweithgarwch ymgysylltu cyn i'r tariffau terfynol gael eu cadarnhau. |
| 4 Medi 19 | Cyfarfod cyswllt chwarterol – trafodaeth ar y tariffau cyfanwerthu dangosol. | Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn deall nad oes unrhyw effaith ar gwsmeriaid ac y byddai eu biliau yn gostwng.<br><br>Cyhoeddwyd tariffau cyfanwerthu dangosol ar y wefan ar 5 Medi 2019. |
| | Trafodaeth am dariffau cymdeithasol. | Nododd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr y gallai biliau fod yn cynyddu i gwsmeriaid ar y tariffau cymdeithasol ond bod hyn yn is na 5%. Gofynnodd y corff gwarchod am ddadansoddiad manwl o lefel yr effaith a nifer y cwsmeriaid mewn cyfarfodydd cynnig codi tâl yn y dyfodol. |
| 22 Hydref 19 | Trafodaethau am y cynnig codi tâl. | Nododd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr y taliadau draenio priffyrdd a dulliau cyfrifo ar gyfer tariff trosglwyddo carthffosiaeth Cymorth Dŵr Cymru.<br><br>Gwnaeth y Cyngor Defnyddwyr Dŵr hefyd argymell ei bod yn arfer dda diwygio strwythur y bil i nodi'r taliadau draenio priffyrdd i gwsmeriaid, yn unol â chwmnïau yn Lloegr. |
| 20 Tachwedd 19 | Trafodaethau am y cynnig codi tâl. | Trafodaeth gyffredinol am godi tâl, roedd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn deall yr ansicrwydd ynghylch lefel taliadau'r flwyddyn nesaf oherwydd bod angen aros am y Penderfyniad Terfynol. Parhaodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr i godi pryderon ynghylch cynnydd posibl mewn taliadau tariffau cymdeithasol yn ogystal â chynnydd posibl yn y groesgymorthdaliadau. |
| 20 Rhagfyr 19 | Cyflwyno taliadau drafft ar ôl cyhoeddi FD19 a CPIH. | Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y cynnydd uwch na chwyddiant ar gyfer cwsmeriaid tariffau cymdeithasol a chynnydd perthnasol i gwsmeriaid dibreswyl dŵr gwastraff. Heriodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr y cynnydd mewn taliadau cwsmeriaid dibreswyl a pharhaodd i ofyn cwestiynau am gynnydd mewn tariffau cymdeithasol yn sgil y Penderfyniad Terfynol. |
| 9 Ionawr 20 | Cyflwyno'r taliadau terfynol ar ôl cymeradwyaeth y Bwrdd i roi cosbau ODI 2019/20 arfaethedig ar gyfer taliadau 2020/21 a gosod taliadau £5m (1%) yn is na'r lwfans i sicrhau nad yw biliau carthffosiaeth dibreswyl yn cynyddu mwy na 5%. | Croesawodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr gynnig y Bwrdd i reoli cynnydd perthnasol posibl i filiau. Ceisiodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ddeall y cynigion tariffau cymdeithasol yn fanylach a chadarnhaodd y byddai hyn yn ffocws allweddol yn ystod gwaith ymgysylltu ynghylch taliadau 2021/22. |